

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth dau o'n haelodau yr wythnos hon. Bu farw Mrs Annie Griffiths (Llansannan) ddechrau'r wythnos, un a fu'n ffyddlon iawn i'r oedfaon a'r Ysgol Sul ar hyd y blynyddoedd. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r teulu oll yn eu profedigaeth. Yn yr un modd, estynnwn ein cydymdeimlad â Mr Neville Hughes a gweddill y teulu ym marwolaeth ei frawd, Mr Norman Hughes (Groes) ddydd Iau. Cyflwynwn y ddau deulu i ofal Duw gan hyderu y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt.
- Cofiw'n hefyd am y cleifion yn ein plith. Mae Meirion Evans (Henllan) yn yr Inffirmari ers rhai dyddiau, a gobeithiwn fod y llawdriniaeth yr oedd Doreen Evans (Tanyfron) i'w chael yn Ysbyty Glan Clwyd wedi mynd yn hwylus ddiwedd yr wythnos hon. Parhawn i gofio am Amy Evans (Llanfair) yn Ysbyty Maelor, a chofiw'n hefyd am Emlyn Evans (Llansannan) gafodd lawdriniaeth i'w law yr wythnos ddiwethaf. Cyflwynwn y rhai sy'n wynebu triniaeth ac eraill sydd heb fod yn dda y dyddiau hyn i ofal yr Arglwydd gan hyderu y cânt hwy a'u teuluoedd adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd yn ddigon yn eu hangen.
- Llongyfarchiadau a phob bendith i Mrs Gwenfyl Jones (Llansannan) ar gyrraedd ei phen-blwydd yn go!

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 9^{fed} Rhagfyr 2012

Beth am ddod â ffrind hefo chi i'r
Gwasanaeth Carolau a Phlygain nos
Sul nesaf? Croeso cynnes i bawb!

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da! Mae'r Nadolig o fewn cyrraedd! Ac mae'r panic arferol ar y gorwel! Fel llawer o ddynion, dwi'n gadael y cwbl tan y funud ola! Fi 'di'r un sy'n rasio o un siop i'r llall ar y 24ain o Ragfyr pan mae'r goleuadau yn diffodd a phan mae'r staff yn ysu am gael cau y drysau a mynd allan i barti. Dydw i ddim yn cael llawer o groeso gallwch fentro! Pob blwyddyn rwy'n dweud "siopa Dolig ym mis Tachwedd y flwyddyn nesa". Ond dyma hi, canol mis Rhagfyr a dim un anrheg yn cuddio yn unlle! "Don't panic Mr Mannering!" A sori o flaen llaw i bawb a fydd yn cael sgarff a sannau eto eleni!

Diolch mai nid mewn panig a brys y daeth Iesu i'r byd. Cafodd pob peth ei drefnu ymlaen ymhell cyn y noson honno ym Methlehem. Ydi hi'n ormod meddwl fod holl gwrs hanes y byd wedi ei lunio fel paratoad ar gyfer y digwyddiad rhyfeddol hwn ym Methlehem? Ydi hi'n ormod meddwl fod a wnelo holl dragwyddoldeb hyd yn oed â geni Iesu?

Yn Efengyl Mathew ac Efengyl Luc cawn hanes y paratoi a fu yn agos i'r amser – hanes y bugeiliaid a'r doethion, hanes Mair yn derbyn y newydd, ac Elisabeth hithau, mam Ioan Fedyddiwr a oedd am baratoi'r ffordd at weinidogaeth gyhoeddus Iesu yn nes ymlaen.

Ond yn Efengyl Ioan cawn hanes y paratoi a fu o dragwyddoldeb. Mae Ioan yn dweud fod Iesu, fel 'Y Gair', ym mynwes y Tad o'r dechrau cyntaf un. Y 'Gair' a oedd gyda Duw. Y 'Gair' sydd yn Dduw. A'r 'Gair' yma sy'n cael ei wneud yn gnawd ac a ddaeth i drigo yn ein plith 'yn llawn gras a gwirionedd' (Ioan 1).

Dyma ryfeddod! Oes, mae yna ryfeddod yn y seren ac yng nghân yr angylion. Ond 'dyda ni ddim yn ei gadael hi yn fan'na. Wrth edrych y tu ôl i'r digwyddiadau hyn gallwn weld holl baratoadau manwl Duw dros y canrifoedd ac o dragwyddoldeb yn cael eu gwireddu, a hynny 'trosom ni' yn Iesu! Ac i ni fel Cristnogion, dyma ryfeddod gwirioneddol y Nadolig.

Neges fawr y Beibl ydi fod Duw y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân wedi paratoi o dragwyddoldeb fod Duw y Mab, Iesu, i gael ei eni yn faban, yn gig a gwaed fel ni, eto heb bechod, i fedru dioddef a marw yn ein lle ar groes. Dod yn wir ddyd ac yntau yn wir Dduw. Gall pawb ymddiried yn hwn! Yn Iesu mae gobaith y ddynoliaeth yn sicr. Er nad oes yna banig yn yr hyn y mae Duw wedi ei baratoi trosom ni yng Nghrist, eto mae yna gyfrifoldeb arnom ni hefyd i frysio ato. Yng ngeiriau'r garol: "Am hyn bechadur, brysia fel yr wyt! Ymofyn am y noddfa, fel yr wyt!" (C.Ff. 464)

Gobeithio y cewch fendith yn oedfaon y dydd heddiw ac y byddant o gymorth i ni frysio at Iesu ein Gwardwr gogoneddus. Cofiwch hefyd am yr Oedfa arbennig nos Sul nesa – Oedfa Carol a Phlygain. Dewch â chroeso!

Gwasanaeth Carolau a Phlygain Eglwysi Bro Aled

Oedfa Arbennig i'r Fro yng
Nghapel Coffa Henry Rees,
Llansannan

Nos Sul Rhagfyr 16eg
6.00 y.h.

Croeso cynnes i bawb!

Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw, ym Methlehem (tref
y Brenin Dafydd). Ie, y Meseia! Yr Arglwydd! Luc 2:11

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, bydd Rhodri yn pregethu ac Aneurin yn gweinyddu'r cymun. Bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mawrth • **Adnabod Dawn** yn Festri Capel y Groes am 7.30.
- Mercher • Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd am 7.30.
- Sul nesaf • Cynhelir **Gwasanaeth Carolau a Phlygain i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Bydd paned a mins pei yn dilyn yr oedfa. Croeso cynnes i bawb.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn **Neuadd** Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth Cinio Nadolig a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Neuadd Llanfair am 11.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi ym Mheniel a Saron am 10.00 ac Ysgol Sul yn y ddwy eglwys am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deuluol yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Mercher Bydd Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel y Groes gan ddisgyblion Ysgol Rhydgaled am 6:30. Croeso i bawb.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 11.15.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac fe fydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth Bydd y Pwyllgor Adeiladau yn cyfarfod am 7.30. Croeso i bawb.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Elinor yn arwain oedfa am 10.00 ac fe fydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Elinor yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Rhag-hysbys Ar 6ed Ionawr 2013, fe fydd yr eglwys yn Nantglyn yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.

I ddod

- **Oedfa Bore Nadolig i'r Fro** yng Nghapel y Groes am 9.30.
- **Taith gerdded** yn ardal Cefn Meiriadog bore Iau, Rhagfyr 27ain. Pawb i gyfarfod ym maes parcio Capel Cefn Meiriadog am 10.30. Dewch â chinio hefo chi – bydd paned ar gael yn y Festri.
- **Swper Nadolig Adnabod** yn Festri Llansannan nos Wener, Rhagfyr 28ain am 7.30. Mwy o fanylion gan Mair (870632).
- **Oedfa i'r Fro** bore Sul, Rhagfyr 30ain am 10.00 **yng Nghapel Peniel**.
- **Llanw** - Cynhelir Llanw 13 yn Ninbych y Pysgod yn Sir Benfro rhwng 1af-5ed Ebrill 2013. Mae croeso i bawb - plant, teuluoedd, myfyrwyr, parau a phobl sengl o bob oed! Mae manylion y siaradwyr a sut mae archebu lle ar y wefan www.llanw.org. Fe fyddai'n wych petasai modd i chi archebu a thalu mor fuan â phosib gan fod angen talu am y carafannau fisoedd ymlaen llaw.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau